PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 4 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Mackie, McKerlich a/ac Murphy |

87 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

88 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol.

89 : TREFNIADAU UWCH REOLWYR – YMGYNGHORIAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad ynghyd â Paul Orders, y Prif Weithredwr.

Dywedodd y Cadeirydd y Pwyllgor, yn unol â chyfrifoldeb y Pwyllgor hwn dros graffu defnydd y Cyngor o adnoddau dynol, byddai'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i Aelodau ystyried cynigion newydd i ystyried cynigion newydd ar gyfer trefniadau i uwch reolwyr. Roedd y Prif Weithredwr wedi gwahodd sylwadau ac arsylwadau'r Pwyllgor fel rhan annatod o'r broses ymgynghori. Byddai cynigion terfynol i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2017 yn cymryd i ystyriaeth yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys un y Pwyllgor hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Huw Thomas wneud datganiad.

Esboniodd y Cynghorydd Thomas y byddai cynigion yr adroddiad yn cefnogi ac yn cyflawni blaenoriaethau'r Weinyddiaeth. Roedd hyn yn rhoi caniatâd i'r Prif Weithredwr ailfodelu'r Uwch Dîm Rheoli yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad y cytunwyd arno. Hefyd, byddai'r cynnig hwn yn cefnogi'r Uchelgais Prifddinas a'r egwyddorion ar gyfer cyflawni.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad yn y broses ymgynghori a châi'r penderfyniad ei gymryd i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2017.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor fod adolygiad cyffredinol o'r Uwch Dîm Rheoli presennol ar waith ac y byddai rhan o'r penderfyniad yn effeithio ar unigolion sydd yn y swydd ar hyn o bryd. Roedd yr agwedd Uchelgais Prifddinas yn ganolog i'r newidiadau arfaethedig a byddai'r strwythur arfaethedig yn cefnogi dimensiwn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd meincnodi wedi digwydd yn erbyn swyddi Uwch Rheolwyr mewn Dinasoedd Craidd. Roedd hyn yn symudiad hanfodol i sefydlu Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau a yrrir gan ffactorau sy'n dod i'r amlwg o Wasanaethau Cymdeithasol, Gofal Ataliol a Gwasanaethau Byw'n

Annibynnol.   Roedd y fethodoleg waith bresennol yn cymryd dyblygu i ystyriaeth yn y meysydd hyn wrth gefnogi'r rhai sy'n agored i niwed a dylid ymwneud â hi o dan un ymbarél.   Hefyd roedd materion y gyllideb yn ffactor enbyd gyda chynnydd yn y galw a’r cyflenwi.  Byddai’r Uwch Fodel Rheoli arfaethedig yn cryfhau galluedd Rheoli Corfforaethol ac yn sicrhau bod arferion diogelu cadarn ar waith.

Cynigiwyd swydd y Prif Swyddog Digidol, er mwyn cefnogi a gyrru Agenda Digidol y Cyngor ymlaen.  Roedd gofyn i Gyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun gyflymu materion Glanhau sy’n cael eu profi a chrëwyd Landlord Corfforaethol Cyfarwyddwr Cynorthwyol i reoli'r ystâd fawr sy'n hen ac sydd â lefelau uchel o dagfeydd cynnal a chadw.

Roedd sefydlu Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ofyniad statudol ac yn gyfle i atgyfnerthu'r gefnogaeth i aelodau etholedig a’r gwasanaethau a ddarperir trwy’r Tîm Gwasanaethau Aelodau.

Sylwodd y Pwyllgor fod model arfaethedig yr uwch dîm rheolwyr yn niwtral o ran cost a lleihau'r strwythur rheolaeth uwch presennol o 17 i 16.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i wybod pam nad oedd y strwythur rheoli blaenorol yn gweithio a sut roedd yr ailstrwythuro wedi digwydd.

Dywedodd yr aelodau, yn dilyn asesiad, y penderfynwyd y byddai’r cynnig hwn yn cryfhau rheolaeth bresennol y sefydliad.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at safon yr ymgeiswyr yr oedd y Cyngor yn ceisio eu denu i swyddi, argaeledd ymgeiswyr o safon dda yn y farchnad a'r potensial i ddod o hyd i ymgeiswyr addas i'w recriwtio.

Esboniodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau wedi cael eu cynnal gydag ymgynghorwyr AD, HayGroup y gofynnwyd iddynt feincnodi trefniadau arfaethedig yr uwch reolwyr, gan gymharu'r awdurdod ag eraill yn y DU gan gynnwys Dinasoedd Craidd.   Roedd gofyn am ragor o waith gan HayGroup wrth ddatblygu disgrifiadau swydd addas i weddu i’r farchnad.

Sicrhawyd i’r Pwyllgor nad oedd y swydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei hisraddio, ond gwneir newidiadau i’r strwythur adrodd. Roedd perfformiad o ran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gwella, yn ogystal â’i enw da.  Gobaith y Cyngor oedd denu gweithwyr proffesiynol gyda chefndir mewn gwaith cymdeithasol a phrofiad ychwanegol fel uwch reolwr.  Byddai’r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ymdrin â’r gwasanaeth wrth reoli galw gyda’r gallu i ganolbwyntio ar faterion adrannol sy’n rhyngberthyn.

Roedd Caerdydd ar fin gyflawni ar ei blaenoriaethau, ac roedd rôl Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau yn blatfform ar gyfer cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn gydamserol.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i wybod pam roedd y swyddi'n cael eu hysbysebu’n allanol.  Fel ymateb, eglurwyd bod gofyniad bod rhaid i bob swydd o £100k ac uwch gael eu hysbysebu’n allanol.

Roedd rhai aelodau’r Pwyllgor yn teimlo y byddai ailstrwythuro'r uwch reolwyr eto yn cael adwaith negyddol gan y cyhoedd, gan gymryd i ystyriaeth y goblygiadau ariannol a'r swyddi yn cael eu dileu o bosibl.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y gwnaethpwyd y penderfyniad trwy ddadansoddi galluedd presennol yr uwch reolwyr, a gafodd ei leihau ychydig o flynyddoedd yn ôl. Byddai’r strwythur newydd yn darparu sefydlogrwydd yn gyffredinol ac yn gyrru’r agenda newid ymlaen. Roedd hyn yn ymagwedd gytbwys a fyddai’n rhoi gwerth am arian yn y sector cyhoeddus.

Gofynnodd y Pwyllgor am y fanyleb swydd ar gyfer y swydd fel Prif Swyddog Digidol, y gofynion technegol a rhinweddau arweinyddiaeth. Ymhellach, gofynion Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a’r posibilrwydd o gael cefnogaeth gan swyddogion gwleidyddol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn Swydd Uwch Reolwr sy’n gweithio’n amhleidiol gyda’r Aelodau. Roedd y Cyngor wedi cymryd penderfyniad i beidio â mabwysiadu'r model o gynorthwywyr gwleidyddol. Byddai gan y Prif Swyddog Digidol wybodaeth dechnegol gadarn gyda’r gallu i arwain a chefnogi ar raddfa fawr er mwyn cyflwyno’r agenda newydd sy’n seiliedig ar dechnoleg. Er mwyn mynd i’r afael â ffyrdd o weithio o fewn CMS/cynnal a chadw i wella'r agwedd ddigidol a rhoi trywydd golwg cliriach i'r Cyngor ar lefel dechnegol uwch sy'n ffitio i mewn gydag arferion gwaith presennol.

Sicrhawyd i’r Pwyllgor y câi’r broses ei chyflawni ar sail cost niwtral. Roedd yn anodd rhagweld dadleoli a dileu swyddi ond disgwyliwyd cost niwtral.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i’r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

## 90 : ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2016/17

Croesawodd y Cadeirydd:

Yn cynrychioli Swyddfa Archwilio Cymru
Sara-Jane Byrne
Steve Barry

Yn cynrychioli Cyngor Caerdydd:
Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad.
Paul Orders, y Prif Weithredwr
Ian Allwood, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a
Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau.

Cynghorodd y Cadeirydd yr Aelodau fod cyfle ganddynt i ystyried yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2016-17. Mae hwn yn adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd

gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Medi 2017 yn dilyn archwilio cynllunio gwelliant a threfniadau adrodd i asesu a fydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau gwella statudol.

Gwahoddodd y Cadeirydd Steve Barry a Sara-Jayne Byrne o SAC i roi adroddiad ar lafar o negeseuon allweddol yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfeiriodd Steve Barry at yr Adroddiad Archwilio, sef y rhaglen waith a oedd wedi digwydd ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

- Wedi'i amlinellu yn yr adroddiad roedd disgrifiad o
  "Lywodraethu da wrth bennu taliadau gwasanaethau"
  Datganodd y casgliad:
  Roedd gan y Cyngor fframwaith clir ar gyfer newid sylweddol yn y gwasanaeth trwy wella llywodraethu ond gellid cymhwyso trefniadau yn fwy cyson
  Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor trwy:
- - P1- Sicrhau bod gwybodaeth sy'n cefnogi cynigion am newidiadau mewn gwasanaethau yn gyson o ran cynnwys opsiynau ac yn rhestru'r dulliau ar gyfer arfarnu'r opsiynau yn glir
- - P2 - Rhestru trefniadau'n eglur ar gyfer monitro effaith pob newid yn y gwasanaeth

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod P2 yn fater cyffredin ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol.

Sicrhawyd bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r llythyr archwilio Blynyddol 2015-16 a grynhodd y negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau Statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

Nid oedd rhai o'r cynigion o ran arbedion wedi dwyn ffrwyth a dywedwyd wrth y Pwyllgor am gynnwys canlynol yr adroddiad.

- Cynllunio ar gyfer Arbedion
- Cynigion ar gyfer Gwella
  - Cryfhau trefniadau cynllunio trwy:
  - 1 - Sicrhau y caiff yr holl gynigion ar arbedion eu datblygu'n llawn cyn dechrau'r flwyddyn, gydag amserlenni realistig pan gaiff y gyllideb flynyddol ei phennu;
  - 2- Datblygu Polisi Creu Incwm/Codi Tâl; a
  - 3- Parhau i ddatblygu cysylltiadau rhwng y Cynllun Datblygu Sefydliadol ac arbedion blynyddol

Esboniwyd i Aelodau fod gwaith dilynol ar waith ar gyfer Trefniadau Corfforaethol y Cyngor er mwyn gwella'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol. Nododd y Pwyllgor y casgliad o'r adroddiad::

- Gall y Cyngor ddangos digon o gynnydd wrth roi cynigion 2016 am wella ac mae yn y broses o fewnosod trefniadau newydd o ran rheoli perfformiad ac adrodd, ond mae angen datrys dirywiad yn y gyfran o staff sy'n derbyn hyfforddiant mandadol mewn cyfrinachedd gwybodaeth a diogelwch data.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad wedi cymryd ymagwedd Cymru-gyfan. Roedd y Rhaglen Archwilio Perfformiad yn cael ei datblygu ac roedd ei chyflawni yn fater i'r swyddogion. Roedd hyn yn gyfle i'r Pwyllgor Craffu edrych ar y cynigion a mynd i'r afael â'r materion.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at y sylwadau o'r Pwyllgor blaenorol mewn perthynas â meincnodi a'r diffyg tystiolaeth i gefnogi meincnodi llwyddiannus mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod clybiau meincnodi ar waith, fodd bynnag roedd problem o ran coladu'r data. Cydnabuwyd bod diffyg meincnodi yn yr ardal hon ac y byddai sefydlu uned arfer da o ran meincnodi yn ddefnyddiol. Roedd yn hanfodol i awdurdodau lleol ddatblygu darlun cliriach o brosesau a dylid rhoi digwyddiadau arfer da ar waith er mwyn cefnogi hyn, ynghyd ag edrych ar ymchwil i sut mae dinasoedd mawr yn adrodd am berfformiad.

Gofynnodd y Pwyllgor am lywodraethu yn ystod adolygiad newid gwasanaeth a sut roedd y Swyddfa Archwilio wedi dod i'w chasgliadau. A oedd y broses werthuso yn cael ei chymhwyso'n gyson? Dywedwyd wrth aelodau fod gofyn am ragor o ymchwil er mwyn mynd i'r afael â llywodraethu newid yn y gwasanaeth, ac effaith modelau cyflawni amgen ar y fframwaith cynllunio datblygiad, oherwydd bod rhai anghysondebau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, mewn perthynas â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ystod 2018/19 y byddai SAC yn cymryd ymagwedd archwiliadol ac nid archwiliad. Roedd y Cyngor wedi darparu tystiolaeth oedd yn gyflawn, a châi cyfarfodydd eu cynnal gyda'r Prif Weithredwr a'r Arweinydd. Ni fyddai unrhyw archwiliad neu adrodd ffurfiol.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at gynllunio arbedion, creu cronfeydd mewn refeniw ar gyfer gorwariant a sut i gymryd ymagwedd fwy pwyllgor at arbedion. Rhoddodd cynllunio arbedion mewn perthynas â materion o ran Gwasanaethau Cymdeithasol fewnwelediad i'r broses cynllunio. Roedd cynllunio arbedion yn hanfodol ac roedd meysydd yng Ngwasanaethau Cymdeithasol lle nad oedd hyn yn amlwg. Gellid gweld gwelliant o ran rheoli galw a chyflymu'r broses gyda darparwyr cytundebol.

Cafodd aelodau'r Pwyllgor wybod am yr angen am welliant ac effeithiau cronfa gil-dwrn. Gellid cyflawni arbedion y cynlluniwyd amdanynt a dylent eu gwireddu.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y cafodd y gronfa gil-dwrn ei chyflwyno ychydig o flynyddoedd yn ôl er mwyn lleihau'r gorwariant o £4 miliwn i £3m y llynedd. Roedd gorwariant yn amlwg yng Ngwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion ac roedd yn anodd ei ragweld a'i hatal.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am y broses sydd ar waith er mwyn edrych ar risg a'r balansau sydd ar waith i ddatblygu arbedion. Roedd pwysau parhaus i ddatblygu disgyblaeth a chyflawni'r arbedion hyn yn cael ei fynegi i wasanaethau.

Argymhellodd y Pwyllgor hyfforddiant diogelu data gorfodol i staff oherwydd nad oedd y rhaglen bresennol yn ddigonol a bu dirywiad o ran hyfforddi staff.

Trafododd y Pwyllgor ymglymiad y Trydydd Sector a chydnabuwyd nad yw Cynghorau bellach yn darparu gwasanaethau mewn ffordd draddodiadol ac y câi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn ag ymagweddau gwahanol ei rhannu gyda'r Aelodau.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

91 : ADRODDIAD GWELLIANT STATUDOL CYNGOR CAERDYDD 2016-17

Croesawodd y Cadeirydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, Paul Orders, Prif Weithredwr, Ian Allwood, Pennaeth Cyllid a Joseph Reay, Pennaeth Partneriaethau a Pherfformiad.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor fod yr eitem hon yn rhoi cyfle i'r Aelodau ymchwilio i Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ar 12 Hydref 2017. Dan Fesur Llywodraeth Leol, roedd gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Gwella a sut roedd yn bwriadu eu cyflawni nhw. Roedd y ddogfen yn cynnig crynodeb ôl-weithredol o werthusiad perfformiad 2016-17.

Dywedodd y Cynghorydd Weaver wrth y Pwyllgor fod y Cabinet a'r Cyngor yn croesawu barn y Pwyllgor ac yn edrych ymlaen at symud yr argymhellion ymlaen.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi prif bwyntiau'r canlynol:

- Adroddiad o berfformiad y Cyngor yn ystod 2016/17 yn erbyn yr Amcanion Gwella o fewn Cynllun Corfforaethol 2016-18.
- Adroddiad a gynlluniwyd i fodloni ymrwymiadau statudol y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009
- 4 Blaenoriaeth y Cyngor
- 121 Amcan Gwella
- Asesiad o gynnydd Da, Boddhaol neu Anfoddhaol yn erbyn pob Amcan Gwella.
- Cynnydd yn erbyn 12 Amcan Gwella'r Cyngor
- Negeseuon Allweddol
- Meysydd ar gyfer rhagor o welliant

Cysylltodd yr amcanion Lles â blaenoriaethau'r Cyngor a restrir yn ei Gynllun Corfforaethol 2017-19:

- Addysg a sgiliau gwell i bawb;
- Cefnogi Pobl sy'n Agored i Niwed
- Economi sydd o fudd i'n holl ddinasyddion; a
- Gweithio ynghyd i drawsnewid gwasanaethau.

Trafododd y Pwyllgor yr amcanion gwella a lle roedd canlyniadau anfoddhaol wedi digwydd. Esboniodd y Swyddogion fod yr amcanion gwella wedi'u hamlinellu ym mhob adran o'r adroddiad a chofnodwyd sut roedd y Cyngor wedi hunanasesu.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at rai o'r amcanion gwella a sut yr aethpwyd ati i sicrhau bod pob targed yn swnio'n gadarnhaol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oedd gan y Cyngor ganlyniadau anfoddhaol ac roedd hyn o ganlyniad i'r broses a roddwyd ar waith gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfeiriwyd y ffocws tuag at amcanion gwella, mewn rhai achosion ni fodlonwyd y dangosyddion perfformiad ond roedd y gwelliant yn amlwg.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr Amcan Gwella – mae gan Bobl yng Nghaerdydd fynediad at dai o safon a gofynnodd am y mesurau perfformiad. Dywedodd y swyddogion fod y rhain yn ddangosyddion newydd a adlewyrchodd ffyrdd newydd o weithio.

Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor at osod targedau a nifer yr amcanion a gyflawnwyd. Ni roddodd yr adroddiad wybodaeth gywir mewn perthynas â'r amcanion a'r cyflawniadau.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor am y broses gosod targedau, a gafodd eu herio gan y Cabinet er mwyn dod ymlaen gyda thargedau gwell sy'n perthyn i dargedau sy'n benodol i berfformiad. Roedd gwaith ar y gweill i wneud y targedau mor gadarn â phosibl. Roedd dangosyddion cenedlaethol hefyd yn effeithio ar rai o'r lleoliadau oherwydd bod gan seilwaith priffyrdd ddangosyddion penodol. Bydd yr adroddiad gwella blynyddol nesaf yn edrych ychydig yn wahanol oherwydd y cafodd newidiadau i'r broses eu hadlewyrchu yn unol â'r fframwaith cyfreithiol.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn bryderus na chafodd y targed ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ei fwrw a gofynasant a oedd y materion yng Ngwasanaethau Cymdeithasol neu yn Addysg. Pan gafodd targedau eu gosod, roedd gwahaniaethau cyffredinol yn y dangosyddion a effeithiodd ar y canlyniadau. Fel ymateb, dywedwyd wrth yr Aelodau y gellid dod o hyd i wahaniaethau yng Ngwasanaethau Plant gydag amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr Amcan Gwella – mae gan Gaerdydd amgylchedd dinas o ansawdd uchel sy'n cynnwys mannau cyhoeddus deniadol a seilwaith trafnidiaeth cefnogol da, a'r drafodaeth flaenorol yn y Cyngor ar y CDLl. Nid oedd y wybodaeth yn yr adroddiad yn fanwl ac nid oedd mo adnabod y gwelliant a gyflawnwyd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod natur y mecanwaith a ganiateir ar gyfer yr agwedd gweithgaredd wedi dyddio ychydig. Roedd Cynlluniau Gweithredu ar waith er mwyn mynd â hyn ymlaen a mynd i'r afael ag adrodd ôl-syllol. Byddai adolygiad o'r dangosyddion yn digwydd er mwyn gwneud yr hyn a oedd yn cael ei adrodd yn gliriach.

Roedd y Pwyllgor yn awyddus i weld y model newydd a gofynnodd am fforwm Panel Perfformiad er mwyn mynd i'r afael â'r broses a'i harchwilio.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau.

92 : YMHOLIAD GORCHWYL A GORFFEN ARWEINYDDIAETH CWSMERIAID

PENDERFYNWYD: Ystyriodd y Pwyllgor y cwmpas, yr ymagwedd arfaethedig a chytunodd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer ymchwiliad y grŵp gorchwyl ar Arweinyddiaeth Cwsmeriaid.

93 : UNRHYW FUSNES ARALL A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF